Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Codau diogelu dŵr daearar gyfer Cymru

# Toddyddion

Chwefror 2017

2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30608 ISBN Digidol: 978 1 4734 8363 7

## Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Mathau o doddyddion

3. Datblygu system reoli amgylcheddol

4. Asesiad risg

5. Atal llygredd dŵr daear

6. Prynu, danfon a chludo toddyddion

7. Storio toddyddion ac atal gorlifo a gollyngiadau

8. Defnyddio a chael gwared ar doddyddion

9. Hyfforddi staff i drafod toddyddion

10. Seilwaith safle

11. Paratoi ar gyfer argyfyngau

# 1. Cyflwyniad

Mae dŵr daear wedi ei leoli o dan wyneb y ddaear. Os byddwch yn defnyddio neu'n rhyddhau toddyddion yn ddiofal ar eich safle, gallent lygru dŵr daear. Mae'r rhan fwyaf o doddyddion yn **sylweddau peryglus**[1]. Gall dim ond ychydig o doddyddion achosi llygredd a chael effaith ddifrifol ar ansawdd dŵr daear a halogi ffynonellau dŵr daear fel tyllau turio, ffynhonnau, pistylloedd a nentydd, sy'n eu gwneud yn anaddas fel dŵr yfed neu at ddefnyddiau eraill fel cynhyrchu bwyd.

Dylech ddarllen a dilyn y cod hwn os ydych:

- yn berchen ar safle lle mae toddyddion yn cael eu defnyddio neu eu storio, neu'n gweithio ar safle o'r fath
- yn danfon toddyddion i safle o'r fath
- yn ymwneud â digomisiynu safle o'r fath

Gallwch leihau'r perygl o achosi llygredd dŵr daear trwy ddilyn y cod ymarfer hwn.

Gallech gael eich carcharu a derbyn dirwy ddiderfyn os byddwch yn:

- rhyddhau toddyddion y syth i ddŵr daear
- cael gwared ar doddyddion ar dir heb drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru

Trwy ddefnyddio'r cod hwn, byddwch yn gallu dangos eich bod wedi cymryd camau i osgoi llygredd a'ch bod yn cydymffurfio â'ch gofynion cyfreithiol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Mae'n rhaid i chi hefyd ddilyn canllawiau a deddfau perthnasol fel y rheoliadau iechyd a diogelwch.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried pa un a wnaethoch ddilyn neu a ydych yn debygol o ddilyn y cod wrth benderfynu a ddylai gyflwyno hysbysiad i chi o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Gall hysbysiadau o'r fath gynnwys y gofyniad i chi gael trwydded, neu i atal rhag defnyddio neu storio toddyddion ar y safle. Mae methiant i gydymffurfio â hysbysiad hefyd yn drosedd.

[1] https://naturalresources.wales/media/680314/updated-list-of-hazardous-substances.pdf

## 2. Mathau o doddyddion

Unrhyw sylwedd sydd wedi ei ddylunio i weithredu ar sylwedd arall yw toddydd, fel:

- toddwr
- gwasgarwr
- diseimiwr
- addaswr gludiogrwydd
- addaswr tensiwn arwyneb
- amddiffynnwr
- plastigiwr

## 3. Datblygu system reoli amgylcheddol

Mae angen i chi ddangos eich bod yn gweithredu eich cyfleuster mewn ffordd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol trwy ddatblygu gweithdrefnau rheoli gweithredol mewn system reoli amgylcheddol. Dylai eich system reoli amgylcheddol ddangos gweithdrefnau rheoli gweithredol y cyfleuster trwy sefydlu pa fesurau yr ydych yn mynd i'w cael i ddiogelu'r amgylchedd, a sut y byddwch yn eu cyflawni.

Dylai eich system reoli amgylcheddol gynnwys:

- manylion hyfforddiant staff a gweithdrefnau ymateb brys
- cynlluniau ar gyfer uwchraddio gofynion peirianneg y cyfleuster
- sut y byddwch yn cynnal archwiliadau ac yn ymdrin â phroblemau
- rheolaethau fel trefnau canfod gollyngiadau, storio, danfoniadau, dosbarthu ac arolygu
- sut y byddwch yn cynnal adolygiad rheoli o'ch systemau / gweithdrefnau amgylcheddol ac yn cyflawni unrhyw welliannau sy'n angenrheidiol

Dylech gadw cofnodion cyfredol o hyfforddiant staff.

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

**Achredu eich system reoli amgylcheddol**

**ISO 14001**[2] a'r **Cynllun Rheoli Amgylcheddol ac Archwilio**[3] yw'r ddau brif gynllun ardystio systemau rheoli amgylcheddol. Gallwch hefyd ddefnyddio **BS 8555:2003**[4] – nid yw hon yn safon ardystiadwy ond yn hytrach yn ganllaw ar gyfer gweithredu system reoli amgylcheddol ar sail gam wrth gam.

# 4. Asesiad risg

Mae asesiad risg yn rhan o system reoli amgylcheddol ar gyfer cyfleuster gweithredol. Mae paratoi asesiad risg amgylcheddol yn bwysig i sicrhau bod y peryglon i ddŵr daear a mesurau diogelu priodol yn cael eu nodi'n briodol.

Mae angen i'ch asesiad risg roi sylw i'r meysydd hyn:

- priodweddau ffisegol, cemegol a biolegol unrhyw ddeunydd a allai achosi llygredd
- sut y mae deunyddiau yn cael eu storio neu eu cludo a chyflwr cynwysyddion storio
- effeithiau posibl damweiniau, llifogydd, fandaliaeth neu fethiant o ran cyfyngiant
- draeniau dŵr wyneb a charthffos fudr sy'n llifo oddi ar eich safle
- unrhyw systemau draenio cynaliadwy sydd gennych ar eich safle
- mannau o dir heb wyneb ar y safle (sy'n cynrychioli llwybrau posibl i lygryddion at ddŵr daear gwaelodol
- gweithrediadau a chynllun eich safle
- peryglon i bobl a'r amgylchedd a maint y difrod y gallent ei achosi
- y dirwedd leol a gwahanol amodau tywydd a'r perygl llifogydd y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol yn eich safle ac o'i gwmpas

[2] http://www.bsigroup.com/en-GB/iso-14001-environmental-management

[3] http://ec.europa.eu/environment/emas/index_en.htm

[4] http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=000000000030077920

Darllenwch y **canllawiau asesu risg dŵr daear**[5] am wybodaeth fanwl ar gynnal asesiad risg. Mae'r canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwydded, ond gallwch ddefnyddio'r egwyddorion y mae'n eu hamlinellu.

Dylech ddefnyddio eich canfyddiadau asesu risg i lunio cynllun gweithredu rheoli risg ar gyfer y cyfleuster. Bydd hwn yn nodi'r mesurau peirianneg a rheoli gweithredol sydd eu hangen i ddiogelu dŵr daear. Defnyddiwch eich canfyddiadau asesu risg wrth ddylunio defnydd toddyddion newydd neu gyfleusterau storio, neu ddiweddaru rhai presennol.

## 5. Atal llygredd dŵr daear

Mae'n rhaid i chi atal llygredd dŵr daear wrth:

- ddanfon a chludo toddyddion
- storio toddyddion (naill ai fel cynnyrch heb ei ddefnyddio neu wastraff)
- defnyddio toddyddion
- cael gwared ar doddyddion
- digomisiynu safleoedd toddyddion

Dylech hefyd wneud yn siŵr bod eich system reoli amgylcheddol yn cynnwys hyfforddi staff mewn trafod toddyddion.

## 6. Prynu, danfon a chludo toddyddion

Wrth brynu toddyddion, dylech:

- brynu cymaint ag sydd ei angen arnoch yn unig
- cadw cofnodion o'r hyn yr ydych yn ei brynu (faint, pryd ac a chan bwy)
- cael taflen ddata diogelwch cynnyrch gyffredinol gan y cyflenwr ar gyfer pob toddydd yr ydych yn ei brynu
- gwneud yn siŵr bod staff yn gyfarwydd ag asesiad risg y safle

[5] https://www.gov.uk/guidance/groundwater-risk-assessment-for-your-environmental-permit

Gwnewch yn siŵr bod danfoniadau yn cael eu gwneud mewn **cynwysyddion wedi eu labelu'n eglur**[6], heb eu difrodi a bod y mannau danfon hyn:

- yn ddigon mawr ar gyfer unrhyw gerbydau a thrafod offer
- yn rhydd o unrhyw rwystrau neu ffynonellau tanio, e.e. gwresogyddion, goleuadau, fflamau noeth, offer trydanol, deunydd ysmygwyr (sigaréts, matsis ac ati), ac unrhyw beth arall a all fynd yn boeth iawn neu achosi gwreichion
- fod ag arwynebau anhydraidd a, phan yn briodol, byndiau (math o system cyfyngiant eilaidd a adeiladwyd â waliau a lloriau sy'n anhydraidd i'r deunydd sy'n cael ei storio) yn unol â'ch system reoli amgylcheddol a'r asesiad risg, i reoli unrhyw orlifo

Wrth gludo toddyddion o gwmpas safle, dylech:

- ddefnyddio cynwysyddion ac offer arall addas a diogel (e.e. wagenni fforch godi a throlïau)
- cadw llwybrau cludo yn rhydd o unrhyw ffynonellau tanio neu rwystrau (e.e. draeniau, sympiau a ffosydd cerrig)
- dilyn y Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol os bydd y toddyddion yn hynod fflamadwy
- defnyddio'r biben ddosbarthu ymarferol fyrraf os ydych yn defnyddio tancer

Dylech hefyd:

- wneud yn siŵr bod staff yn cael eu hyfforddi mewn **codi a chario a thrafod offer**[7]
- gwneud yn siŵr bod unrhyw gontractwyr yn cael eu goruchwylio gan staff wedi eu hyfforddi

---

[6] http://www.hse.gov.uk/chemical-classification/labelling-packaging/hazard-symbols-hazard-pictograms.htm

[7] http://www.hse.gov.uk/msd/manualhandling.htm

- asesu'r perygl o danau o hylifau fflamadwy neu eu hanweddau o dan y Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol

# 7. Storio toddyddion ac atal gorlifo a gollyngiadau

Gall storio toddyddion yn anghywir arwain at lygredd dŵr daear. Gwnewch yn siŵr bod mannau storio:

- yn cael eu harchwilion rheolaidd ar gyfer achosion o orlifo a gollyngiadau
- yn ddiogel rhag y perygl o orlifo neu fandaliaeth
- yn cael eu storio ar ben y tir
- yn cael eu gwarchod rhag amodau tywydd a allai eu heffeithio'n negyddol, e.e. amodau rhewllyd a allai hollti cynwysyddion neu wres a allai achosi tannau
- yn cael eu diogelu gan **gyfyngiant eilaidd**[8]
- wedi eu goleuo'n dda i osgoi gorlifo a'i gwneud yn haws i ganfod

  gollyngiadau

Dylech hefyd:

- wneud yn siŵr bod arolygiadau yn cael eu cofnodi a'u cynnal yn erbyn rhestr wirio o eitemau perthnasol
- cadw stocrestr o'r holl doddyddion, cemegau a chynhyrchion sy'n cael eu storio a'u defnyddio ar y safle

Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio system canfod gollyngiadau ar gyfer eich man storio. Dylai eich system reoli amgylcheddol a'ch asesiad risg nodi'r gofyniad am system canfod gollyngiadau briodol.

### Ble i storio toddyddion

Gallwch storio toddyddion yn y cynwysyddion canlynol sydd o'r maint a'r dyluniad priodol:

- caniau
- drymiau

[8] http://www.ciria.org/Resources/Free_publications/c736.aspx

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

- cynwysyddion swmp canolraddol
- tanciau storio ar ben y tir

Gall drymiau â chaeadau mawr a chlampiau ymyl (e.e. drymiau pen agored 205 litr) ollwng ac achosi gorlifo, felly dylech ddefnyddio'r rhain ar gyfer storio toddyddion gludiog nad ydynt yn llifo'n rhwydd yn unig (e.e. cwyrau paraffin).

Gallwch ddefnyddio drymiau metel traddodiadau â chyrc bach, cyn belled:

- nad oes unrhyw dyllau, tolciau neu ollyngiadau ynddynt
- nad oes unrhyw arwyddion gweledol o rwd neu ludded metel
- â'u bod wedi eu nodi'n eglur gan ddefnyddio **pictogramau peryglon**[9]
- nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen ar gyfer gwahanol fathau o doddyddion neu gemegau eraill

Dylech osgoi storio toddyddion mewn tanciau tanddaearol gan fod y rhain yn fwy tebygol o achosi llygredd dŵr daear. Mae'n rhaid i chi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol gyntaf os byddwch yn bwriadu defnyddio tanciau tanddaearol.

Dylech hefyd fod yn gyfarwydd â'r datganiadau sefyllfa o ran storio tanddaearol (Adran D) ar gyfer **diogelu dŵr daear**[10]

**Atal gorlifo a gollyngiadau**

Er mwyn atal achosion o orlifo a gollyngiadau, dylech ddilyn unrhyw argymhellion gan gyflenwyr a:

- chadw lloriau, cynwysyddion a byndiau yn lân a sych
- gwneud yn siŵr bod falfiau yn cael eu cadw ar gau
- storio cymaint o doddyddion ag sydd eu hangen arnoch yn unig
- gosod hambyrddau diferion o dan dapiau a falfiau yn y man storio
- diogelu'r man storio (gan gynnwys tapiau a falfiau) rhag mynediad heb awdurdod a fandaliaeth

[9] http://www.hse.gov.uk/chemical-classification/labelling-packaging/hazard-symbols-hazard-pictograms.htm

[10] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/598778/LIT_7660.pdf

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

- **gwneud yn siŵr bod pecynnau gorlifo ac offer brys ar gael i staff ac yn gweithio'n iawn**

Dylech wneud yn siŵr bod cynwysyddion a chyfyngiant eilaidd yn:

- gallu gwrthsefyll cemegau'r toddyddion sydd wedi eu storio ynddynt
- cael eu labelu'n eglur gydag arwyddion rhybudd
- digon cryf fel eu bod yn annhebygol o fyrstio neu ollwng – dylech gael gwared ar unrhyw gynwysyddion sydd wedi eu difrodi neu'n anaddas ar unwaith

Dylai fod gennych gynwysyddion wrth gefn a phympiau trosglwyddo â llaw ar gael ar gyfer cludo toddyddion o gynwysyddion sydd wedi eu difrodi. Defnyddiwch gorddrymiau i orchuddio cynwysyddion sydd wedi difrodi.

# 8. Defnyddio a chael gwared ar doddyddion

**Defnydd o doddyddion**

Gwnewch yn siŵr bod mannau lle defnyddir toddyddion ar y safle:

- wedi eu dynodi'n eglur gydag **arwyddion priodol**
- yn cynnwys lloriau anhydraidd ac yn gallu gwrthsefyll y cemegau yn y toddyddion a ddefnyddir
- wedi eu lleoli oddi wrth ffosydd cerrig, tyllau turio dŵr yfed, sympiau, ffynonellau dŵr wyneb a draeniau dŵr wyneb
- y tu mewn i fannau wedi eu byndio'n briodol
- yn rhydd o draffig neu unrhyw rwystrau - mae hyn yn lleihau'r perygl o orlifo damweiniol

**Cael gwared ar doddyddion**

Gellir dosbarthu gwastraff sy'n cynnwys toddyddion fel gwastraff a reolir o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi wneud y canlynol wrth gael gwared arnynt:

- gwirio a yw eich **gwastraff yn beryglus**[11]
- gwirio a oes angen **trwydded amgylcheddol**[12] arnoch
- gwneud yn siŵr bod **cludwr gwastraff cofrestredig**[13] yn cael gwared arno o'ch safle

# 9. Hyfforddi staff i drafod toddyddion

Dylech sicrhau bod eich staff wedi eu hyfforddi, a bod unrhyw gontractwyr sy'n ymweld wedi eu hyfforddi yn yr un modd, i drafod toddyddion. Dylai'r hyfforddiant gynnwys:

- sut i oruchwylio danfoniadau
- trafod a chludo toddyddion
- deall pwysigrwydd diogelu dŵr daear ac **asesu'r peryglon i ddŵr daear**[14] ar safle
- cwblhau nodiadau trosglwyddo a chludo gwastraff
- ymdrin â digwyddiadau ac argyfyngau, gan gynnwys hysbysu am orlifo neu ddigwyddiadau eraill a defnyddio pecynnau gorlifo ac offer brys
- cynnal a chofnodi archwiliadau cynnal a chadw ac atgyweiriadau
- deall rheoliadau trwyddedu amgylcheddol a gwastraff peryglus

# 10. Seilwaith safle

Dylech ofalu am y seilwaith (e.e. pibellau, cyfyngiant eilaidd a draeniau) ar eich safle i atal llygredd dŵr daear. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw seilwaith:

- yn addas ar gyfer faint o doddyddion yr ydych yn eu defnyddio
- wedi ei leoli a'i ddylunio fel na fydd yn achosi llygredd dŵr daear
- wedi ei leoli fel y gallwch ei lanhau a'i gynnal yn briodol
- **yn cynnwys arwyddion eglur**

Gallwch gael canllawiau penodol gan y cyflenwr ar sut i ofalu am seilwaith eich safle, ond dylech bob amser:

[11] https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/waste-management/how-to-classify-and-assess-waste/?lang=cy
[12] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy
[13] https://www.wastecarriersregistration.naturalresourceswales.gov.uk/cy/registrations/search
[14] https://www.gov.uk/guidance/groundwater-risk-assessment-for-your-environmental-permit

- gynnal arolygiad blynyddol o fyndiau, lloriau, draeniad, pibellau, mannau storio, cyfyngiant eilaidd ac arwyddion
- cyflawni atgyweiriadau yn brydlon
- cynnal ac arolygu'r safle yn unol â'r system reoli amgylcheddol
- cadw cofnodion ysgrifenedig manwl o arolygiadau, gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau – efallai y bydd gennych drwyddedau sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi wneud hyn hefyd

**Cynnal ac archwilio pibellau**

Gall gollyngiadau o bibellau sy'n cludo toddyddion achosi llygredd dŵr daear. Dylech wneud yn siŵr bod pibellau:

- yn gallu gwrthsefyll unrhyw doddyddion y mae'n eu cludo neu'n dod i gysylltiad â hwy
- wedi eu lleoli uwchben y ddaear ac ar gael i'w harchwilio a'u cynnal
- ar wyneb anhydraidd oddi wrth draeniau dŵr wyneb, ffosydd cerrig, mannau codi dŵr yfed a sympiau
- wedi eu lleoli oddi wrth brif ffyrdd neu wedi eu diogelu rhag difrod trawiad
- yn dangos labeli eglur yn nodi eu cynnwys
- yn cynnwys i nifer leiaf bosibl o gysylltiadau i atal cynnydd i'r potensial o ollyngiadau damweiniol

Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i dapiau, falfiau a phympiau. Dylech hefyd osod tapiau, falfiau a phympiau dros fannau wedi eu byndio os byddwch yn llenwi neu'n trosglwyddo toddyddion rhwng cynwysyddion.

**Cyfyngiant eilaidd a byndiau**

Dylech ddefnyddio cyfyngiant eilaidd ar gyfer unrhyw gynwysyddion ar eich safle nad ydynt wedi eu byndio'n integrol, gan gynnwys cynwysyddion cragen ddwbl. Gall cyfyngiant eilaidd helpu i atal:

- toddyddion rhag gollwng o gynwysyddion
- achosion o orlifo o dannau a ffrwydradau mewn mannau storio

Os nad ydych yn darparu cyfyngiant eilaidd ar eich safle, efallai y bydd rhaid i chi esbonio pam nad oes ei angen yn ystod arolygiad gan, er enghraifft, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, awdurdod lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru.

Gallai cyfyngiant eilaidd gynnwys:

- byrddau gorlifo a llwyfannau cyfyngiant syml
- llwyfannau storio diogel â byrddau gorlifo
- atebion wedi'u hadeiladu, fel byndiau a systemau a luniwyd ymlaen llaw wedi eu gwneud o ddur neu blastig

Bydd y math o gyfyngiant eilaidd yr ydych yn ei ddefnyddio yn dibynnu ar:

- fath a chyfanswm y toddyddion yr ydych yn eu storio
- pan un a yw'r man storio dan do neu yn yr awyr agored

Gwnewch yn siŵr bod cyfyngiant eilaidd:

- yn anhydraidd ac yn gallu gwrthsefyll y cemegau yn y toddyddion sydd wedi eu storio ynddo - ni all rhai mathau o goncrit wrthsefyll bob math o doddydd
- yn cynnwys labeli eglur yn nodi ei gynnwys, os yw'n gaeedig
- nad oes ganddo unrhyw wasanaethau fel pibellau neu ddwythellau yn mynd drwyddo

Darllenwch ragor o wybodaeth am **systemau cyfyngiant eilaidd**[15] .

Gwnewch yn siŵr:

- y gallai byndiau gynnwys yr holl hylif sy'n cael ei storio yn y cynhwysydd (neu'r cynhwysydd mwyaf os oes mwy nag un), a chapasiti ychwanegol o 10% ar gyfer glawiad a dŵr ymladd tân
- bod byndiau wedi eu dylunio o gadw'n rhydd o ddŵr glaw ac ar gyfer cael gwared â hylif sydd wedi gorlifo yn ddiogel
- bod byndiau yn rhydd o ddraeniau dŵr wyneb, ffosydd cerrig, sympiau wedi'u hadeiladu, gwahanwyr, llystyfiant a deunydd llosgadwy

[15] http://www.ciria.org/Resources/Free_publications/c736.aspx

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

- bod byndiau ymhellach na 10m o gyrsiau dŵr ac ymhellach na 50m o ffynnon, pistyll neu dwll turio a ddefnyddir ar gyfer cyflenwi dŵr yfed.

Dylech gael gwared ar unrhyw hylif sydd wedi gorlifo a dŵr glaw sy'n casglu o fyndiau cyn gynted â phosibl. Gwnewch hyn trwy ddefnyddio pwmp dros wal y bwnd o fan isel yn y bwnd. Peidiwch â defnyddio falfiau neu drefniadau eraill sydd y tu mewn i wal y bwnd neu'n mynd drwyddo.

Mae'n rhaid i chi **gael gwared ar wastraff sy'n cynnwys toddyddion yn gyfreithlon**.

**Draeniau**

Gall draeniau fod yn sianelau ar gyfer llygredd dŵr daear. Bydd gan y rhan fwyaf o safleoedd 2 fath o ddraen:

- draeniau dŵr wyneb (gan gynnwys draeniau tir a tho) – mae'r rhain yn rhyddhau i afonydd, nentydd neu ffosydd cerrig lleol, heb driniaeth fel rheol
- draeniau dŵr budr (a adnabyddir fel draeniau elifion masnach hefyd) – mae'r rhain yn cludo dŵr halogedig o waith trin carthffosiaeth, lagwnau storio neu systemau triniaeth

Gwnewch yn siŵr:

- bod draeniau dŵr wyneb yn cludo dŵr dihalog yn unig
- bod elifion safle a dyfroedd wyneb halogedig yn cael eu rhyddhau i'r draeniau dŵr budr y mae gwahanwyr wedi eu gosod ynddynt pan fo angen
- bod yr holl ddraeniau yn hygyrch i gael eu harchwilio a'u cynnal
- bod yr holl ddraeniau wedi eu nodi'n eglur ar gynlluniau sydd ar gael i staff bob amser

**Cadw cynllun o ddraeniau'r safle**

Dylech gadw cynllun cyfredol o'r draeniau ar eich safle. Dylai hwn ddangos:

- cynllun draeniau
- sut i'w cyrraedd
- cynllun ('cynrychioliad amlinellol') o ddraeniau'r safle

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

Dylech nodi:

- draeniau budr yn goch
- draeniau dŵr wyneb yn las
- cyfeiriad y llif i ddraeniau dŵr wyneb a budr (defnyddiwch yr un lliwiau i nodi gorchuddion draeniau a thyllau caead)

Dylai eich cynllun draeniau hefyd ddangos:

- cynllun cyffredinol adeiladau a ffyrdd ar y safle
- unrhyw wahanwyr, sympiau a ffosydd cerrig ar y safle neu'n gyfagos
- mannau rhyddhau oddi ar y safle ar gyfer dŵr wyneb ac elifion masnach
- unrhyw gyrsiau dŵr, tyllau turio, ffynhonnau neu bistylloedd ar y safle neu'n gyfagos
- unrhyw gyfleusterau ar gyfer canfod llygredd, fel mannau archwilio (e.e. tanciau dargadw, tanciau cydbwyso, pyllau dargadw dŵr tân)

Nodwch yn eglur lleoliadau:

- falfiau rheoli ysgeintwyr (os ydynt yn bresennol) a stopfalfiau dŵr o'r prif gyflenwad
- mannau o gwmpas y safle sy'n addas ar gyfer storio brys cludadwy
- mannau lle gallwch ddefnyddio cyrc a phlygiau
- mannau prosesu ac unrhyw fannau trin ar y safle ar gyfer hydrantau tân, blychau tân, falfiau atal a phecynnau gorlifo carthffosiaeth fasnach neu ddomestig
- mannau wedi'u byndio, yn dynodi eu capasiti a'r mathau o gynhyrchion sy'n cael eu storio ynddynt

## Arwyddion

Gall arwyddion a hysbysiadau helpu i atal colled toddyddion. Dylech eu defnyddio i:

- nodi mannau danfon, llwybrau cludo a mannau storio
- rhybuddio am ddeunyddiau neu weithgareddau peryglus

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

- annog diogelwch a chadw tŷ da, gan gynnwys glanhau a chael gwared ar wastraff
- darparu cyfarwyddiadau eglur ar gyfer defnyddio pibellau, byndiau a mannau arllwys
- nodi offer a gweithdrefnau brys

**Newid neu ddigomisiynu safle**

Wrth newid neu ddigomisiynu safle, dylech:

- wneud yn siŵr nad ydych yn rhyddhau toddyddion i ddŵr daear neu ddŵr wyneb
- cael gwared ar unrhyw offer sy'n cynnwys toddyddion yn ddiogel (e.e. pibellau, draeniau, tanciau a byndiau)

Darllenwch **Llyfr Glas**[16] y Gymdeithas Gweinyddu Petrolewm a Ffrwydradau a'r Diwydiant Ynni i ddarganfod am ddigomisiynu a chael gwared ar unrhyw danciau storio tanddaearol.

[16] http://www.apea.org.uk/publication/blue-book-pdf

# 11. Paratoi ar gyfer argyfyngau

Os oes perygl bod dŵr daear wedi cael ei lygru, yna mae'n rhaid i chi gysylltu â **Cyfoeth Naturiol Cymru**[17] i hysbysu am ddigwyddiad amgylcheddol. Ffoniwch nhw ar **0300 065 3000**

**Llunio cynllun ymateb i ddigwyddiad**

Dylech baratoi cynllun ymateb i ddigwyddiad llygredd yn rhan o system reoli amgylcheddol eich safle, yn nodi'r hyn y byddwch yn ei wneud mewn argyfwng.

Mae angen i chi deilwra eich cynllun ymateb i ddigwyddiad llygredd i'ch safle, a dylai gynnwys y canlynol o leiaf:

- **manylion cyswllt brys**
- stocrestr cynhyrchion, gan gynnwys taflen ddata diogelwch cynhyrchion
- cynllun o'r safle
- cynllun o'r trefniadau draenio ar y safle
- manylion lleoliad offer ymateb brys
- eich gweithdrefn frys
- sut yr ydych yn hysbysu am ddigwyddiadau[17]

Dylech:

- wneud yn siŵr bod staff a chontractwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a nodir yn y cynllun ymateb i ddigwyddiad
- profi effeithiolrwydd eich gweithdrefnau yn rheolaidd
- cadw copïau o'r cynllun ymateb i ddigwyddiad ar eich safle (ac oddi ar y safle er mwyn cyfeirio ato os bydd digwyddiad)

Dylech hefyd ychwanegu taflen grynodeb at y cynllun ymateb i ddigwyddiad sy'n cynnwys:

- enw eich cwmni
- eich cyfeiriad
- eich prif weithgareddau busnes

---

[17] https://naturalresources.wales/about-us/contact-us/report-an-incident/?lang=cy

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

- cofnod o'r holl doddyddion ar y safle (gan gynnwys faint) manylion pawb sydd â chopi o'r cynllun ymateb i ddigwyddiad

**Ymateb i argyfwng**

Dylech wneud yn siŵr:

- y gall eich offer ymateb brys ymdopi â'r achos o orlifo mwyaf sy'n debygol o ddigwydd
- bod eich offer ymateb brys yn gweithio'n iawn
- bod eich offer ymateb brys wedi ei nodi'n eglur ar gynllun y safle (nodwch hyn yn eich cynllun ymateb i ddigwyddiad)
- bod eich offer ymateb brys wedi ei nodi'n eglur, a chyfeiriadau ar gyfer ei ddefnyddio wedi eu harddangos yn eglur

Gwnewch yn siŵr bod y staff wedi eu hyfforddi i ddefnyddio offer ymateb brys.

Dylech hefyd wneud pecynnau gorlifo ar gael mewn mannau lle mae achosion o orlifo a gollyngiadau yn debygol o ddigwydd (e.e. mannau storio, danfon a chael gwared ar wastraff). Dylai pecynnau gorlifo gynnwys:

- rhawiau deunyddiau amsugno
- cyrc neu orchuddion draeniau

**Cyflawni eich gweithdrefnau brys eich hun**

Gwnewch yn siŵr:

- bod gweithdrefnau brys wedi eu teilwra i anghenion y safle
- y gall gweithdrefnau brys ymdopi â'r senario gwaethaf posib

Yn rhan o'r weithdrefn frys, dylech:

- hysbysu staff am y digwyddiad
- gwagio'r safle yn ddiogel
- hysbysu eich cysylltiadau brys
- hysbysu a gwagio unrhyw adeiladau sy'n cael eu heffeithio yn y cyffiniau

Toddydd: cod diogelu dŵr daear

Dylai eich cynllun ymateb i ddigwyddiad nodi sut y byddwch yn:

- ymdrin ag achosion gorlifo bach a mawr
- asesu blaenoriaethau mewn argyfwng
- gwneud yn siŵr bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn argyfwng
- trafod a chael gwared ar unrhyw wastraff a achoswyd gan y digwyddiad yn ddiogel
- glanhau a dadheintio offer diogelwch personol
- cael gwared ar ddŵr ymladd tân

**Manylion cyswllt cyflenwi**

Bydd eich manylion cyswllt brys fel rheol yn cynnwys:

- staff sy'n ddeiliaid allweddi - dylech gynnwys rhifau safle, cartref a symudol
- unrhyw ffynonellau o gyngor arbenigol
- gwasanaethau brys
- contractwyr glanhau arbenigol
- y cwmni cyflenwi dŵr lleol
- yr ymgymerwr carthffosiaeth lleol